

Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru

Hydref 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**

Twitter: **@SeneddEconomi**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru

Hydref 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Hannah Blythyn AS
Llafur Cymru



Hefin David AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
1. Y cefndir.....	7
2. Model Gweithredu Targed y Ffin	8
Nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon.....	8
Symudiadau uniongyrchol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.....	10
Symudiadau anuniongyrchol: Gogledd Iwerddon i Gymru drwy Iwerddon	11
Rheolau symlach ar gyfer nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon sy'n dod i Gymru.....	11
Llwybrau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon yn y dyfodol	14
3. Safleoedd Rheoli Ffiniau.....	16
Parodrwydd Safleoedd Rheoli Ffiniau.....	17
4. Dargyfeiriadau masnach.....	20
Tystiolaeth arbenigol a gafwyd.....	20
Tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru	23
5. Costau.....	25
Cyllideb Llywodraeth Cymru.....	25
Anghydfod costau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru	26
Gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb	28
6. Llywodraeth Cymru	30
Tystiolaeth ar y camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd	30
Cytundeb milfeddygol rhwng y DU a'r UE.....	31
Adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu	32

Rhagair y Cadeirydd

Dylai sut y mae ein heitemau bob dydd yn cyrraedd ein gwlad fod o ddiddordeb i bob un ohonom.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, lluniodd y pedair llywodraeth gyfundrefn fewnforio newydd, sef Model Gweithredu Targed y Ffin. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2023, ac roedd yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno rheolaethau masnach newydd ar ein holl fewnforion, gan gynnwys mewnforion o'r UE.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am rai o'r rheolaethau hyn. Mae bioddiogelwch, diogelwch bwyd a rheolaethau glanweithdra a ffytoiechydol (sy'n diogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion ac iechyd y cyhoedd) i gyd wedi'u datganoli. Mae angen safleoedd rheoli ffiniau newydd yng Nghaerdybi, Abergwaun a Doc Penfro er mwyn cynnal y gwiriadau hyn.

Mae ein gwlad mewn sefyllfa unigryw. Yn wahanol i Loegr a'r Alban, mae ein porthladdoedd yn cysylltu â phorthladdoedd Iwerddon, sy'n golygu mai Cymru yw'r unig wlad heb lwybrau uniongyrchol i Ogledd Iwerddon. Ac er bod y rhan fwyaf o'n mewnforion yn cyrraedd ar gulforoedd byr y DU, mae hyn yn golygu bod y rheolau ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd Cymru o ynys Iwerddon yn arbennig o arwyddocaol i ni.

Fel Pwyllgor, rydym wedi dilyn datblygiad Model Gweithredu Targed y Ffin hyd at ei weithredu, a ddechreuodd yn gynharach eleni. Rydym wedi monitro'n agos bob achos o ohirio gwiriadau ac wedi gofyn am dystiolaeth arbenigol ar oblygiadau Model Gweithredu Targed y Ffin i Gymru a'i llif masnach.

Rydym yn codi'r materion hyn yn rheolaidd gyda Gweinidogion Cymru, rydym wedi cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog yn Llywodraeth y DU, ac ym mis Gorffennaf 2023, aethom i ymweld â safle rheoli ffiniau yng Nghaerdybi er mwyn cael deall yn well yr hyn sydd ei angen. Mae gennym hefyd rôl bwysig i'w chwarae o ran archwilio gwariant Llywodraeth Cymru yn y maes hwn drwy ein gwaith craffu blynyddol ar y gyllideb.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein gwaith hyd yma wrth i ni nesáu at gam nesaf rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith. Rydym yn benderfynol o ddilyn y datblygiadau'n agos, fel bod gan bawb ddarlun cliriach o'r goblygiadau i fasnach yng Nghymru.



Paul Davies AS

Cadeirydd

1. Y cefndir

- 1.** Dylai rheolaethau mewnforio ar nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr fod wedi dechrau ar 1 Ionawr 2021 yn dilyn diwedd cyfnod pontio Brexit. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu gohirio dro ar ôl tro nes i'r broses o'u cyflwyno'n raddol ddechrau ar 31 Ionawr 2024. Maent yn parhau i gael eu gohirio, yn fwyaf diweddar ym mis Medi 2024.¹
- 2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn penderfyniadau Llywodraeth flaenorol a Llywodraeth bresennol y DU i ohirio gwiriadau mewn meysydd datganoledig drwy gydsynio i reoliadau'r DU i'w gohirio a gwneud ei rheoliadau ei hun.²
- 3.** Dechreuodd yr UE wirio allforion o Brydain Fawr ar 1 Ionawr 2021. Hyd nes y bydd rheolaethau'n cael eu cyflwyno, mae'r DU wedi dewis ymddiried bod mewnforion o'r UE yn bodloni gofynion Prydain Fawr. Ym mis Mai 2024, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad yw'n glir pryd y bydd rheolaethau llawn ar waith (ar draws Prydain).³
- 4.** Manylir ar dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr ar y materion hyn drwy gydol yr adroddiad hwn. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â Safle Rheoli Ffiniau Caergybi ym mis Gorffennaf 2023.⁴

¹ Politico, [UK to again delay Brexit border checks on food](#), Medi 2024

² Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - 9 Hydref 2024; Senedd Cymru, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022;

³ Swyddfa Archwilio Genedlaethol, [Delays and uncertainty hamper post EU exit border ambitions](#), Mai 2024

⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, [ymweliad i archwilio datblygiad y Safle Rheoli Ffiniau yng Nghaergybi](#), 23 Gorffennaf 2023

2. Model Gweithredu Targed y Ffin

5. Mae Model Gweithredu Targed y Ffin (y Model) yn nodi sut y bydd mewnfurion sy'n cyrraedd Prydain Fawr yn cael eu trin.⁵
6. Er iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth flaenorol y DU ym mis Awst 2023, cafodd ei gynhyrchu ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a swyddogion o Ogledd Iwerddon. Mae'n berthnasol i'r holl fewnfurion, gan gynnwys mewnfurion yr UE am y tro cyntaf ers Brexit.
7. Mae hyn yn golygu y bydd rheolaethau masnach a thollau newydd ar waith ym mhorthladdoedd Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am reolaeth fioddioelwch, diogelwch bwyd a glanweithdra a ffytoiechydol (SPS) sy'n amddiffyn iechyd anifeiliaid, planhigion ac iechyd y cyhoedd.
8. Mae'r drefn yn cael ei chyflwyno'n raddol, gyda'r cam cyntaf wedi'i gyflwyno o fis Ionawr 2024 a'r ail gam yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2024. Bydd trydydd cam yn cael ei gyflwyno o 31 Hydref 2024.
9. Mae cynlluniau ar y gweill i greu Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd i brosesu mewnfurion ym mhorthladdoedd Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 2 yr adroddiad hwn.


Nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon

10. Mae amserlen wahanol yn berthnasol i nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon – mae hyn yn arbennig o bwysig i Gymru, y mae ei Safleoedd Rheoli Ffiniau yn rhan o Bont Dir y DU gyda phorthladdoedd Dulyn a Rosslare Iwerddon.
11. Mae Adran 2 o'r Model yn gosod porthladdoedd arfordir y gorllewin ar yr amserlen wahanol hon gyda dau gam: Ionawr 2024 a Hydref 2024. Mae hyn i gyfrif am gymhlethdodau symud nwyddau o ynys Iwerddon.
12. Oherwydd ei daearyddiaeth, mae Cymru mewn sefyllfa unigryw gan fod ei phorthladdoedd ar arfordir y gorllewin yn cysylltu â phorthladdoedd Iwerddon, yn yr UE. Mae nwyddau sy'n symud rhwng y ddwy wlad felly'n cael eu hystyried yn fewnfurion neu'n allfurion rhwng y DU ar UE ac maent yn ddarostyngedig i reolau masnach a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.⁶

⁵ Llywodraeth y DU, [The Border Target Operating Model: Awst 2023](#)

⁶ Ymchwil y Senedd, [Cymru a Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE](#), Mai 2022

13. Fodd bynnag, mae nwyddau o Ogledd Iwerddon hefyd yn teithio tua'r de ar ynys Iwerddon i ddefnyddio'r llwybrau môr rhwng Cymru ac Iwerddon, ac i fanteisio ar bont dir y DU sydd i'w gweld ar y map isod.⁷ Mae'r Model yn gosod y rheolau sy'n berthnasol i'r nwyddau hyn sy'n cael eu mewnfario'n anuniongyrchol o Ogledd Iwerddon i Gymru, drwy Iwerddon, ac i nwyddau sy'n cael eu mewnfario'n uniongyrchol o Iwerddon i Gymru.



14. Mae'r Model yn nodi'r amserlen isod mewn perthynas â nwyddau sy'n cyrraedd Cymru o ynys Iwerddon, ond bydd y rhain yn amrywio yn ôl natur y nwyddau a'r modd y cânt eu cludo.

⁷ Institute for Government, *Trade: the UK landbridge*, Tachwedd 2020

15. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolaethau hyn wedi cael eu gohirio ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhybuddio nad oes disgwyl i Safleoedd Rheoli Ffiniau Cymru fod yn weithredol cyn Gwanwyn 2025.⁸ Wrth siarad â'r Pwyllgor ym mis Mehefin, dywedodd Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, fod gwanwyn 2025 yn hynod uchelgeisiol a dywedodd ei bod yn annhebygol y bydd y dyddiad hwnnw'n cael ei fodloni, ac y byddwn yn gwneud yn dda i fod wedi cyrraedd yno erbyn hydref [2025] (gweler adran 2 i gael rhagor o wybodaeth).⁹

Llinell amser Model Gweithredu Targed y Ffin ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon i Gymru

31 Ionawr 2024

- Hysbysu awdurdodau ymlaen llaw, cyn i rai nwyddau gyrraedd.
- Tystysgrifau iechyd a ffytoiiechydol ar gyfer cynhyrchion iechydol a ffytoiiechydol (SPS) risg ganolig.
- Rheolaethau tollau.

31 Hydref 2024

- Cofnodi, nodi a chynnal gwiriadau ffisegol o gynhyrchion anifeiliaid, planhigion, cynhyrchion planhigion risg ganolig a bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid.
- Datganiadau Diogelwch a Diogeledd ar gyfer mewnfôrion o'r UE.

Symudiadau uniongyrchol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr

16. Mae nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon yn uniongyrchol i Brydain Fawr yn wynebu llai o rwystrau na nwyddau o Iwerddon/yr UE o dan delerau Brexit, ac mae'r Model yn ystyried hyn. Mae masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn cael ei llywodraethu'n bennaf gan Brotocol Gogledd Iwerddon a

⁸ Llywodraeth Cymru, Rheolaethau a seilwaith ffiniau ar ôl ymadael â'r UE, Awst 2022

⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 51

Fframwaith Windsor, deddfau domestig pwysig fel Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a threfniadau a gyflwynwyd gan y Papur Gorchymyn Diogelu'r Undeb.¹⁰

Symudiadau anuniongyrchol: Gogledd Iwerddon i Gymru drwy Iwerddon

17. Wrth benderfynu pa reolau sy'n berthnasol i nwyddau sy'n teithio o Ogledd Iwerddon i Gymru, drwy Iwerddon, rhaid ystyried a ydynt yn 'nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon'.

18. Yn gyffredinol, mae nwyddau sydd mewn cylchrediad rhydd yng Ngogledd Iwerddon, neu nwyddau sydd wedi cael eu prosesu yng Ngogledd Iwerddon, yn nwyddau cymwys. Nid yw nwyddau cymwys yn ddarostyngedig i reolaethau SPS, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig, fel rhywogaethau sydd mewn perygl. Mae Llywodraeth y DU yn cadw rhestr o nwyddau sy'n cael mynediad dirwystyr rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd.¹¹

19. Os nad yw nwyddau'n bodloni'r meini prawf hyn, cânt eu hystyried yn nwyddau nad ydynt yn gymwys ac mae rheolaethau SPS a thollau yn berthnasol. Mae nwyddau mewn rhai categorïau penodol, fel alcohol a thybaco, bob amser yn ddarostyngedig i reolaethau tollau.

Rheolau symlach ar gyfer nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon sy'n dod i Gymru

20. Yn ôl y Model, bydd y telerau ffafriol a roddir i nwyddau cymwys sy'n symud yn uniongyrchol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn cael eu hymestyn i nwyddau cymwys sy'n symud yn anuniongyrchol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, drwy Iwerddon (gan gynnwys i Gymru). Mae'n dweud:

"yn y mwyafrif helaeth o achosion ni fydd angen i chi bellach gwblhau datganiadau tollau mewnforio electronig ar gyfer eich symudiadau nwyddau."

21. O ran cyhoeddiad y Model, dywedodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi ar y pryd, y canlynol:

¹⁰ Ymchwil y Senedd, [Cymru a Fframwaith Windsor](#), Mai 2023; Ymchwil y Senedd, [Deddf Marchnad Fewnol y DU: Sut mae'n effeithio ar gyfraith Cymru?](#), Chwefror 2023; Ymchwil y Senedd, [Cymru a Diogelu'r Undeb](#), Chwefror 2024

¹¹ Llywodraeth y DU, [Moving qualifying goods from Northern Ireland to the rest of the UK](#)

“Rydym wedi sicrhau model sy’n gweithio i Gymru.”¹²

¹² Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Model Gweithredu Targed y Ffin newydd, Awst 2023](#)

22. Mewn llythyr at y Pwyllgor, esboniodd y cyn Weinidog hefyd:

“Roedd yn arbennig o dda gennyf sicrhau cytundeb gan Lywodraeth y DU i addasu diffiniad Nwyddau Cymwys o Ogledd Iwerddon, i leihau'r cymhellion i fasnachwyr geisio osgoi rheolaethau iechydol a ffytoiechydol drwy symud nwyddau i Brydain Fawr o Iwerddon drwy Ogledd Iwerddon. Dylai hyn wella bioddiogelwch yn sylweddol a lleihau'r risg o fasnach yn cael ei ddargyfeirio o borthladdoedd Cymru.”¹³

23. Bydd prosesau'n cael eu symleiddio fel bod angen i gludwyr nwyddau ddatgan eu bod yn cludo nwyddau cymwys a bod ganddynt ddogfennau i brofi hynny, os gofynnir iddynt eu dangos. Bydd angen iddynt hefyd fod â dogfennau teithio'n nodi cyrchfan derfynol y nwyddau cymwys i ddangos mai dim ond drwy Iwerddon y cawsant eu cludo.

24. Ar 11 Hydref 2023, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan arbenigwyr academiaidd, Katy Hayward, sy'n Athro Cymdeithaseg Wleidyddol ym Mhrifysgol Queen's Belfast, ac Andrew Potter, sy'n Athro Trafnidiaeth a Logisteg ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyflwynodd y ddau dystiolaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn dystiolaeth, ochr yn ochr â'r Gymdeithas Masnachau Garddwriaethol.¹⁴

25. O ran a oedd hi'n cytuno ag asesiad y Gweinidog, dywedodd yr Athro Hayward y canlynol:

“a cautious ‘yes’, but there’s an awful lot yet to be seen in practice.”¹⁵

Dywedodd hefyd:

“I think the fact that there is a common approach to western ports is very important, and is certainly to the advantage of Wales. So, recognising the unique nature of the trade from Ireland to Wales and the importance of the ports, that’s really key, and also recognising the

¹³ Llythyr gan Weinidog yr Economi at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 29 Awst 2023

¹⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023

¹⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

way that, for example, what happens or doesn't happen in Cairnryan affects Welsh ports too.”¹⁶

26. Roedd yr Athro Potter o'r farn ganlyn:

“Anything that keeps Wales and the rest of the UK aligned when it comes to, particularly, obviously, the west coast ports is important. If Wales runs behind, then, potentially, you risk losing more traffic to English and Scottish ports.

If Wales runs ahead, the risk is that you're running into systems that perhaps aren't fully developed [...] there is a potential risk you might even lose traffic because people haven't learnt the systems in time. So, I think coming up with a model that is aligned completely with what's happening across the rest of the UK is important. So, yes, I would agree fully.”¹⁷

27. Yn ei Phapur Gorchymyn Diogelu'r Undeb a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, cadarnhaodd cyn Lywodraeth y DU na fydd Safle Rheoli Ffiniau Cairnryan yn mynd yn ei flaen.¹⁸

Llwybrau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon yn y dyfodol

28. O ran dyfodol llwybrau masnach rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gofynnodd Sam Kurtz AS y canlynol i'r Athro Potter a'r Athro Hayward:

“Is that the potential future, to try and re-establish some of the trade on the land bridge, or do you think that's just too complex, given the change to trading patterns?”¹⁹

29. Ymatebodd yr Athro Potter:

“I think that's what it would be nice to end up with—like you say, having that frictionless movement so that the land bridge becomes

¹⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, [Cofnod y Trafodion](#), paragraff 32

¹⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, [Cofnod y Trafodion](#), paragraff 35

¹⁸ Llywodraeth y DU, [Diogelu'r Undeb](#), Ionawr 2024

¹⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, [Cofnod y Trafodion](#), paragraff 25

more attractive again. Like I say, I suspect politics probably gets in the way a bit of that.

There are trading relationships between the UK and the EU and that would be a challenge to do that. There are arrangements in place for things like transit, which you can use to ease the movement across borders already, but they're not—.

Again, you still have to have some checks, so it's not a complete hard border. There are ways you can do it already but it is more complicated than it was before, and they would be more complicated than the [Windsor Frameworks'] green lane-type arrangement. I think if you spoke to any logistics operators, if they could have a green route type of approach for products going to the Republic of Ireland, they would probably appreciate that."²⁰

30. Daeth yr Athro Hayward i'r casgliad a ganlyn:

"the extent to which we'll even need green lanes, and the extent to which they'll be used, and the frictions associated with red lanes will, of course, be dependent upon that UK-EU relationship, and whether that becomes closer in time—for example, a sanitary and phytosanitary agreement between the two of them. So, that's what I would focus on for determining trade from Ireland into Wales and the rest of GB, rather than any other particular dimension."²¹

²⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 26

²¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

3. Safleoedd Rheoli Ffiniau

Mae Safleoedd Rheoli Ffiniau wedi'u lleoli mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar gyfer gwirio mewnfurion, megis nwyddau, anifeiliaid byw a phlanhigion. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am reolaeth fioggiogelwch, diogelwch bwyd a glanweithdra a ffytoiachydol (SPS) sy'n amddiffyn iechyd anifeiliaid, planhigion ac iechyd y cyhoedd. Bydd Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth wirio mewnfurion, gan gynnwys mewnfurion o'r UE am y tro cyntaf.

31. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn 2017, dywedodd Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar y pryd, y byddai'n anodd gwneud lle yn y porthladdoedd presennol a bod y broses o sefydlu safleoedd rheoli ffiniau am y tro cyntaf 'yn torri tir newydd i Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a llawer o berchnogion porthladdoedd'.²² Mewn llythyr at y Pwyllgor yn 2021, dywedodd y cyn Weinidog, Vaughan Gething AS, mai adeiladu Safleoedd Rheoli Ffiniau yw:

*"un o'r rhaglenni cyflenwi seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ef."*²³

32. Mae tri o Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru. Safle Rheoli Ffiniau sy'n cael ei gweithredu gan y llywodraeth yng Nghaergybi, a dau gyfleuster sy'n cael eu rhedeg gan y porthladdoedd yn Noc Penfro ac Abergwaun.

²² Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Cymreig gan Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru

²³ Llythyr gan Weinidog yr Economi at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 4 Hydref 2021

Parodwydd Safleoedd Rheoli Ffiniau

33. Y cynllun gwreiddiol oedd i Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd Cymru fod yn gwbl weithredol erbyn 31 Hydref 2024. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2024, dywedodd Vaughan Gething AS, y cyn Weinidog, wrth y Pwyllgor ei fod yn “benderfynol” o roi “rhybudd rhesymol i fusnesau i baratoi”. Cadarnhaodd nad oedd dyddiad dechrau wedi’i gytuno o hyd ar gyfer gwiriadau ffisegol a bod:

“Ilawer iawn o waith yn dal i’w wneud gyda Llywodraeth y DU ac eraill i weithredu model cydlynol ar gyfer holl arfordir Gorllewin Prydain Fawr.”²⁴

34. Ers mis Mawrth 2024, mae gwefan Llywodraeth Cymru wedi datgan “nad oes disgwyl i wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau sy’n cyrraedd o ynys Iwerddon ddechrau cyn Gwanwyn 2025”.²⁵

35. Ar 26 Mehefin 2024, rhoddodd Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet, dystiolaeth i’r Pwyllgor hwn. Roedd y papur dystiolaeth a ddarparodd ar gyfer y sesiwn hon yn nodi’r canlynol:

“Nid ydym wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon eto. Rwyf wedi addo y byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i fusnesau er mwyn iddynt allu paratoi ar gyfer y gwiriadau hyn. [...] Nid yw’r materion polisi a oedd yn weddill ar adeg Model Gweithredu Targed y Ffin wedi symud ymlaen ac nid oes gobaith o’u datrys cyn yr haf, yn fwy tebygol yr hydref.”²⁶

36. Yn y sesiwn dystiolaeth lafar, ychwanegodd:

“I’d probably describe Spring 2025 as very ambitious indeed at this point. My own view is that it’s unlikely that that date will be met, and that we will be doing well to have got there by the autumn, say. But we aren’t in a position to review that at the moment, because, obviously, we’ve got a UK general election and there’ll be a Government being formed in short order, so we’ll have to have discussions with incoming Ministers about that time frame.”

²⁴ Llywodraeth Cymru, Papur dystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ionawr 2024

²⁵ Llywodraeth Cymru, Rheolaethau a seilwaith ffiniau ar ôl ymadael â'r UE

²⁶ Llywodraeth Cymru, Yr Economi Werdd a Chraffu Cyffredinol - Papur Dystiolaeth Mehefin 2024

*But I am confident that, in light of the ongoing delays, which are very regrettable in relation to checks and to clarity around the checks, the construction of the border control posts that we expect to have in Holyhead and in Fishguard and in Pembroke Dock will have been completed before they're needed, if you like. I think the checks will come in after they're completed. So, that's where we are on the sequencing."*²⁷

Dywedodd hefyd:

*"I think construction of those is still on track, actually, for spring of next year, but the checks themselves, I think, aren't likely to be coming in then, in my view."*²⁸

37. Mae Safleoedd Rheoli Ffiniau Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun wedi symud ymlaen ar gyflymderau gwahanol. Rhoddir diweddariad ar bob un isod:

Caergybi

38. Safle rheoli ffiniau Caergybi, a leolir ym Mharc Cybi, sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn y broses cynllunio. Ym mis Tachwedd 2023, dywedodd diweddariad gan Lywodraeth Cymru y byddai safle rheoli ffiniau Caergybi yn llai na'r disgwyl wrth i Lywodraeth y DU gynllunio i ddiwygio ei model gweithredu ar gyfer ffiniau a gohirio cyflwyno gwiriadau.²⁹ Bydd hyn yn caniatáu i drefniadau parcio cerbydau nwyddau trwm barhau ar rywfaint o'r tir.

39. Ym mis Awst 2024, cyhoeddodd Kier ei fod wedi'i benodi i adeiladu Safle Rheoli Ffiniau Caergybi drwy fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru.³⁰ Mae ei gyhoeddiad yn dweud y bydd yn cefnogi 700 o swyddi lleol ar Ynys Môn ac yn cadarnhau bod gwaith tir ac adeiladu ar y gweill. Ceir rhagor o fanylion yn y cyhoeddiad am gynlluniau, gan gynnwys ar gyfer cyfleusterau staff ac amwynderau eraill, gwaith gydag ysgolion a cholegau lleol i nodi cyfleoedd gyrfa a rhaglen gwerth cymdeithasol.

²⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 51

²⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 53

²⁹ Llywodraeth Cymru, [Parc Cybi, Safle Rheoli Ffiniau Caergybi](#)

³⁰ Kier, ["Kier appointed to build a key new Border Control Post and UK entry point at Holyhead in North Wales"](#), Awst 2024

Doc Penfro ac Abergwaun

40. Yn ôl y papur tystiolaeth y cyfeirir ato uchod gan Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet, roedd Llywodraeth Cymru yn “cwblhau’r cynlluniau gyda phorthladdoedd Sir Benfro” ym mis Mehefin 2024.³¹

41. Wrth roi tystiolaeth ym mis Hydref 2023, gofynnwyd i’r Athro Andrew Potter am ei farn ynghylch a yw’n ddichonadwy cael dau borthladd cludo nwyddau ar waith yn ne-orllewin Cymru yng ngoleuni’r ddeinameg masnach ar ôl Brexit. Dywedodd:

“I think it is. I think there’s obviously enough traffic to support the frequency of flow. I think if you were to talk to operators, what they would like is a bit more co-ordination of the timetables between the two operators, because at the minute, basically, the ferries almost chase each other across the Irish sea backwards and forwards every day. I think they would appreciate it more if the timetables were more co-ordinated, because that, to some extent, gives them more of an opportunity to switch, if they’re running late, as to where they want to operate from.

I don’t think whether you’ve got one port or two makes that much difference.”³²

³¹ Llywodraeth Cymru, Yr Economi Werdd a Chraffu Cyffredinol - Papur Tystiolaeth Mehefin 2024

³² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 37-38

4. Dargyfeiriadau masnach

42. Adroddodd porthladdoedd Cymru ostyngiad sydyn o 50-60 y cant mewn lefelau llwythi yn syth ar ôl Brexit, a gyrhaeddodd lefel ddigyfnewid yn ddiweddarach ar ostyngiad o tua 30 y cant.³³ Erbyn 2022, roedd y fasnach drwy Gaergybi wedi gwella ychydig ond roedd yn dal i fod tua 80 y cant o'r lefelau cyn Brexit.³⁴

43. Ar y pryd, priodolodd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig hyn i ailgyfeirio llwybrau masnach i ffwrdd o lwybrau deheuol (h.y. rhwng porthladdoedd Cymru ac Iwerddon) tuag at lwybrau gogleddol (h.y. rhwng porthladdoedd Mersi/yr Alban a Gogledd Iwerddon) i fanteisio ar ofynion llai cymhleth Protocol Gogledd Iwerddon.³⁵ Cadarnhawyd hyn gan Stena Line, perchennog porthladdoedd Caergybi ac Abergwaun, a ddywedodd ei fod yn dal i weld lefelau o nwyddau a fyddai wedi dod trwy Gymru yn mynd trwy Belfast neu'n uniongyrchol i Ffrainc³⁶.

44. Erbyn 2021 roedd nifer y llwybrau llongau uniongyrchol rhwng Iwerddon a thir mawr yr UE³⁷ wedi cynyddu o 12 i 44 yn y cyfnod ers Brexit, gan roi mwy o opsiynau i osgoi Pont Dir y DU a oedd yn gyflymach ac yn rhatach yn hanesyddol.³⁸

45. Rhybuddiodd academyddion yn Ysgol Economeg Llundain yn 2002 nad oes gan Gymru unrhyw ffordd o liniaru'r dargyfeiriadau mewn llwybrau masnach.³⁹

Tystiolaeth arbenigol a gafwyd

46. O ran newidiadau i symudiadau nwyddau drwy Gymru, dywedodd yr Athro Potter y canlynol wrth y Pwyllgor ym mis Hydref 2023:

³³ BBC News, [Welsh ports had 30% less traffic due to Brexit - shipping chief](#), Ionawr 2022

³⁴ Business Live, [Welsh ports treated with disregard post-Brexit](#), Mehefin 2022

³⁵ Adroddiad y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig, [The effects of the post-Brexit trading environment on UK-Irish trade](#), Hydref 2022

³⁶ ITV News, [‘We’re not there yet’ says Stena Line as Welsh ports continue to deal with Brexit aftermath](#), Ionawr 2022

³⁷ The Journal, [Tonnes of new ferry routes have helped to Brexit-proof Irish trade - but choppy waters could yet be ahead](#), Mawrth 2021

³⁸ Trans.info, [Yet more growth in shipping routes between Ireland and European mainland](#), Hydref 2021

³⁹ Ysgol Economeg Llundain, [The disregard for Welsh ports during and since Brexit is part and parcel of Wales’ wider marginalisation within the political economy of the UK](#), Mehefin 2022

“what we’ve seen is, obviously, a drop-off in the volume of traffic going through the west Wales ports—Holyhead and, obviously, in south-west Wales—as a result of Brexit.

It went up before Brexit, it then dropped significantly immediately after January 2021. It has recovered—it’s about 80 per cent of where it was pre Brexit, and that’s where it seems to have stabilised until recently, when there have been a few little shifts in the market.

So, I think for, say, Welsh ports operations, it’s had a negative impact in terms of the volume of traffic going through, particularly freight, but that hasn’t put off the operators continuing to operate the services that they are—we’ve still got the consistent service that we had before Brexit; it’s just the number of trucks on there is lower”⁴⁰.

47. Ychwanegodd yr Athro Hayward:

“Wales has been particularly affected by the post-Brexit conditions. We know to some degree something won’t change, and that is that Ireland has of course developed direct ferry routes into the EU continent. So, we can probably anticipate that Wales will always have that negative ramification of that, for the Welsh ports.

One thing that may well change, though, in the near future is in relation to the incentives for people to avoid bringing goods directly into GB via Wales from Ireland, and that includes the potential change to the definition of ‘qualifying’ Northern Ireland goods, which may reduce some of the incentive for going into GB via Northern Ireland.

[...] what both of those things reflect, I think, is the very complicated nature of these arrangements and the fact that changing one border or the dynamics of one particular relationship, i.e. UK-EU, has huge ramifications across the board for the various parts of the UK and, indeed, for Ireland. So, it’s tracing the knock-on effects of one decision or another that may seem, at one level, say, for example, particularly

⁴⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 8

about Northern Ireland—it does have consequences for Wales as well.”⁴¹

Llifoedd masnach porthladd-benodol

48. Eglurodd yr Athro Potter i'r Pwyllgor fod dau newid mewn tueddiadau data ar gyfer porthladdoedd Safleoedd Rheoli Ffiniau Cymru. Ar gyfer Caergybi:

“the latest three months’ data does show a noticeable uptick in the volume of traffic over the quarter from April to June. It’s gone from about—sorry, just looking at my notes here—90,000 units per quarter to a 100,000 units. So, that’s about an extra 100 trucks a day, on average. If you plot it on a graph, it stands out as being an uptick. So, that’s quite interesting to think about: well, what’s going on there, and is that a temporary blip or is that a longer term trend? Because of the consistency of the data, I don’t think it’s a blip. I think it’s either firms doing a little bit of a stock build ahead of the end of September deadline, or the end of September implementation of the Windsor framework, so that if there was disruption, they’ve got buffer stops in Ireland ready for that; or it might show there’s a start of some traffic coming back to Holyhead that previously wasn’t there, because it might be that, for instance, the ferry companies have got a couple of customers that have shifted back on to that route. So, I think—. The positive in me would like to think it’s new customers coming through and it’s the start of a growth in that again, but we probably need the next three months or the three months after that to really understand where that data is going.”⁴²

49. Ac ar gyfer Doc Penfro ac Abergwaun:

“The other trend that’s come through in the data is for the south-west Wales ports, where there’s been an increase in the amount of tonnage per unit moved. So, that’s obviously an average, and I suspect what’s happening there is that you’ve got fewer empty trucks using that crossing

⁴¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

⁴² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

So, for instance, if a vehicle was previously doing a delivery from France to Ireland, it might then, say, come back empty to the UK to pick up a load to go back to France. It would be unlikely that it would go empty all the way back because that wouldn't make economic sense, particularly, I mean, if you could pick up a load. But maybe operators with the multiple border crossings and less access to the UK market because of Brexit have been looking to put their empty trucks on the ferry routes, the direct ferry routes, back from Ireland instead. You then get the certainty their vehicle would be back on time, and it's empty, so they save on the running costs as well.

So, actually, the slightly longer and more expensive ferry crossing is offset by some of the uncertainties coming across the land bridge. So, I think we've seen that. Now, if you put your Wales transport hat on, you could argue that's a good thing because we don't necessarily want empty trucks running across the M4 corridor, which is already congested. If you're a port operator, where you get paid per truck, it's not quite such a good idea."⁴³

Tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru

50. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu ei phryderon dro ar ôl tro ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â dargyfeiriadau masnach â'r Pwyllgor. Ym mis Mawrth 2024, dywedodd Vaughan Gething AS, cyn Weinidog yr Economi, y canlynol wrth y Pwyllgor o ran y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Safle Rheoli Ffiniau Cairnryan:

"The statement that there would be no border control post in Cairnryan was a surprise to us and the Scottish Government.

Now, that has implications. What does that actually mean, given the obligations we've agreed with a range of people around the need to check some goods that come in that are not qualifying Northern Irish goods? That's a practical challenge that we need to understand how it's going to be met. Because if it isn't, then the difficulty is that you could see trade diversion, from Belfast in particular, going to Cairnryan.

⁴³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

Now, you might say, 'Well, that's great for Scotland, if they're going to get more trade.' The difficulty is that, actually, if that means that it's potentially a weak link in biosecurity, that's a problem for Scotland, not an unalloyed opportunity to generate more trade. So, we need to be able to work through and understand what those are".⁴⁴

51. Yn ddiweddarach, dywedodd y canlynol:

"I don't want to see disruptions in trade. We've seen enough redirection in trade with the realities of the Brexit deal that's been agreed.

I don't want to see further disruption that means that people are incentivised to go to a different part of Great Britain.

I definitely don't want to see trade diversion to Cairnryan, both on biosecurity grounds as well as loss of trade, and I don't want to see more people simply making a choice to avoid coming through GB at all and rerouting themselves directly into continental Europe".⁴⁵

⁴⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 338

⁴⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 344

5. Costau

52. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd costau'r Model i fewnforwyr yn £330 miliwn y flwyddyn ar draws mewnforion yr UE, ynghyd â chynnydd o 0.2 y cant yng nghostau bwyd a diod dros dair blynedd.⁴⁶ Bydd hyn, meddai, yn dibynnu'n fawr ar sut mae busnesau'n addasu eu modelau busnes a'u cadwyni cyflenwi i integreiddio'r trefnau rheolaethau newydd.⁴⁷

53. Mae'r Model yn esbonio bod y £330 miliwn yn cyfateb i oddeutu 0.13 y cant o werth cyffredinol mewnforion o'r UE ac y gallai'r canlyniadau economaidd a fyddai'n deillio o achos difrifol o glefyd planhigion neu anifeiliaid (sef digwyddiadau y mae rheolaethau masnach yn ceisio'u hatal) "fod yn llawer mwy difrifol".

54. Mae dadansoddiad annibynnol a ddarparwyd i ITV yn amcangyfrif bod costau bron i ddeg gwaith yn uwch na hyn, sef tua £2.9 biliwn (amcangyfrifir ei fod yn ychwanegu £8.57 at siopa bwyd misol ar gyfartaledd).⁴⁸

55. Ni allai Gweinidogion Cymru na'r DU gadarnhau i'r Pwyllgor faint o'r costau amcangyfrifedig y byddai masnachwyr Cymru yn eu hysgwyddo. Eglurodd y Farwnes Neville-Rolfe i'r Pwyllgor ar 7 Chwefror 2024 nad yw amcangyfrifon rhanbarthol wedi'u cynnal⁴⁹ ac ar 26 Mehefin, cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru hyn i'r Pwyllgor hwn:

"an awful lot of products on Welsh shelves are not imported through Welsh ports. Most of our products, actually, are coming through England rather than coming from Ireland, so we don't think there's a particularly different cost in Wales than in Great Britain as a whole. So, we haven't done any additional analysis on costs in Wales."⁵⁰

Cyllideb Llywodraeth Cymru

56. Mewn papur tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024, cadarnhaodd Vaughan Gething AS, cyn Weinidog yr Economi, fod Llywodraeth Cymru wedi

⁴⁶ Model Gweithredu Targed y Ffin, Awst 2023

⁴⁷ Model Gweithredu Targed y Ffin, Awst 2023, tudalen 27

⁴⁸ ITV News, [New post-Brexit checks on EU imports could add more than £8 a month to the average food shop](#), Ebrill 2024

⁴⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 294

⁵⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 57

gwario £9.3 miliwn hyd at 31 Mawrth 2023, a oedd yn cynnwys cyfraniad o £3.3 miliwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2022-23.⁵¹ Dywedodd y Gweinidog ar y pryd nad oedd disgwyl i gyfanswm y gwariant pellach a ragwelir dros 2023-24 a'r flwyddyn ariannol nesaf (2024-25) fod yn fwy na £70 miliwn.

57. Dyrannwyd £6.426 miliwn i Llinell Wariant yn y Gyllideb Rheolaethau Ffiniau newydd ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25⁵² na chafodd ei newid yn ei Chyllideb Derfynol.⁵³ Yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd Llywodraeth Cymru fod £6.4 miliwn o'r swm hwn yn cael ei ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn i dalu costau y mae'n dweud yr oedd Llywodraeth y DU wedi cytuno i'w dalu yn flaenorol (gweler isod).⁵⁴

58. Ar gyfer cyllideb 2023-24, daeth Safleoedd Rheoli Ffiniau o dan y Prif Grŵp Gwariant Materion Gwledig fel cam gweithredu ar gyfer 'Monitro Materion Gwledig, Strategaeth Ymadael â'r UE a Safleoedd Rheoli Ffiniau'. Dyraniad y gyllideb derfynol oedd £3.389 miliwn. Gwnaeth y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon a'r cam gweithredu barhau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 gyda dyraniad llai o £2.639 miliwn (gostyngiad o £750,000 / 22.1 y cant). Er bod y swm hwn wedi aros yr un fath yng Nghyllideb Derfynol 2024-25, newidiwyd enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb i 'Tystiolaeth Strategol a Monitro'.

59. Dywedodd Vaughan Gething AS, cyn Weinidog yr Economi, yn yr un papur tystiolaeth ym mis Ionawr 2024 ei fod yn rhagweld y bydd costau'r rhaglen yn dod i ben ar ôl 2024-25 ond bydd hyn yn "gliriach" unwaith y cytunir ar y dyddiad ar gyfer gwiriadau ffisegol.⁵⁵

Anghydfod costau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

60. Dywedodd Vaughan Gething AS, cyn Weinidog yr Economi, wrth y Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 fod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cyfleusterau Safle Rheoli Ffiniau gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU.⁵⁶ Wrth grynhoi'r mater, dywedodd y canlynol:

⁵¹ Llywodraeth Cymru, [Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) yr Economi](#), Ionawr 2024

⁵² Llywodraeth Cymru Llyw.Cym, [Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025](#)

⁵³ Llywodraeth Cymru Llyw.Cym, [Cyllideb Derfynol 2024 i 2025](#)

⁵⁴ Llywodraeth Cymru, [Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) yr Economi](#), Ionawr 2024

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, [Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) yr Economi](#), Ionawr 2024

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, [Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) yr Economi](#), Ionawr 2024

- Ymrwymodd Trysorlys EF i ariannu costau adeiladu ar gyfer Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro;
- Yn ddiweddar, roedd Llywodraeth y DU wedi gwrthod ariannu'r costau trosiannol i gyrraedd cyflwr sefydlog, gan gynnwys y costau i sefydlu'r trefniadau.
- Roedd Llywodraeth flaenorol y DU hefyd wedi gwrthod talu costau staff ychwanegol Llywodraeth Cymru;
- Cred Llywodraeth Cymru oedd y dylid talu'r costau hyn hefyd a'u bod yn amod iddi gytuno i Fodel Gweithredu Targed y Ffin.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda Thrysorlys EF ac yn disgwyl penderfyniad cyn bo hir, a bod
- Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o £6.4 miliwn ar gyfer y costau refeniw hyn, yn y cyfamser.

61. Mae'r costau refeniw yn cynnwys costau cychwyn (recriwtio, hyfforddi ac ati) ar gyfer yr awdurdodau lleol cyn cyflwyno taliadau, a chostau rhaglen Llywodraeth Cymru ei hun.

62. Ar 7 Chwefror 2024, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Farwnes Lucy Neville-Rolfe, sef y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet ar y pryd.⁵⁷ Mae'r Farwnes a chyn Weinidog yr Economi Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething AS, wedi cadarnhau wrth y Pwyllgor na chafodd anghydfod parhaus ynghylch costau Safleoedd Rheoli Ffiniau ei ddatrys.⁵⁸

63. Cadarnhawyd hyn yn ddiweddarach yn nhystiolaeth ysgrifenedig Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2024.⁵⁹ Dywedodd y canlynol, yn absenoldeb ymrwymiad ar gyllid gan Lywodraeth y DU:

“mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cychwynnol er mwyn i Sir Benfro ac Ynys Môn allu dechrau paratoi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt recriwtio staff ychwanegol cyn dechrau cynnal gwiriadau

⁵⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Chwefror 2024

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, [Gweinidog yr Economi - Papur Tystiolaeth](#), 6 Mawrth 2024

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Yr Economi Werdd a Chraffu Cyffredinol - Papur Tystiolaeth](#) Mehefin 2024

*ffisegol, felly bydd angen dod o hyd i gyllid cyn cytuno ar ddyddiad dechrau.*⁶⁰

Gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb

64. Gwnaeth y Pwyllgor bedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn ystod ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 ym mis Chwefror 2024.⁶¹ Mae'r argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru,⁶² a ddaeth i law ym mis Mawrth 2024, i'w gweld ar y tabl isod.

Tabl 1: Argymhellion o'r adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad y Pwyllgor	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Argymhelliad 27.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor yn esbonio sut y mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau yn cael eu rhannu rhwng y llinell wariant Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Monitro Rhynglywodraethol yn y prif grŵp gwariant Materion Gwledig, a'r llinell Rheoli Ffiniau ym mhrif grŵp gwariant yr Economi.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Er bod staff Llywodraeth Cymru yn gweithio ar bolisi ffiniau mewn nifer o bortffolios gweinidogol, mae costau'r Rhaglen i ddarparu Safle Rheoli Ffiniau yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy brif grŵp gwariant yr Economi, BEL3730 Rheoli Ffiniau.</p>
<p>Argymhelliad 28.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi dod i benderfyniad ar y cyllid ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ariannu costau adeiladu angenrheidiol ein Safleoedd Rheolaethau'r Ffiniau, yn amodol ar achosion busnes. Fodd bynnag, mae'r Trysorlys wedi gwrthod talu costau refeniw, gan gynnwys y staff lleol i gynnal yr archwiliadau dogfennol a'r archwiliadau ffisegol. Mae hwn yn fater penodol cyn i'r broses o godi tâl ddechrau. Nid ydym wedi dod i gytundeb gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.</p>

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, Yr Economi Werdd a Chraffu Cyffredinol - Papur Tystiolaeth Mehefin 2024, Tudalen 7

⁶¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024/25, Chwefror 2024

⁶² Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ei waith Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Mawrth 2024

Argymhelliad y Pwyllgor	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Argymhelliad 29.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau beth yw effaith bosibl dod i benderfyniad gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu Safleoedd Rheoli Ffiniau ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys y £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu costau tra bod y materion cyllid yn cael eu datrys gyda Llywodraeth y DU.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Trysorlys EF wedi cytuno, yn amodol ar achosion busnes, i ariannu costau cyfalaf adeiladu'r Safleoedd Rheolaethau'r Ffiniau yng Nghaergybi a phorthladdoedd Sir Benfro. O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod ariannu costau refeniw, mae'r gyllideb yn cynnwys £6.4m o gyllid refeniw yn 2024-25: y prif elfennau yw staff awdurdodau lleol sy'n rhan o'r gwaith o archwilio dogfennau a pharatoi ar gyfer archwiliadau ffisegol, a staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y rhaglen.</p> <p>Goblygiadau ariannol: Pe bai Trysorlys EF yn cytuno i ad-dalu'r costau hyn, byddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Argymhelliad 30.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru egluro i'r Pwyllgor pa gyfran o'r £6.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn yr oedd yn disgwyl eu derbyn gan Lywodraeth y DU. Dylai hefyd gadarnhau a yw'r swm hwn wedi newid yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i beidio ag ariannu agweddau ar y Safleoedd Rheoli Ffiniau, fel y disgrifir gan y Gweinidog.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl y byddai Trysorlys EF yn ariannu'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ffiniau, yn fwyaf arbennig y staff lleol i gynnal archwiliadau dogfennol a ffisegol cyn dechrau codi tâl. Roeddem felly wedi rhagweld y byddai Llywodraeth y DU yn ariannu'r £6.4m yn llawn.</p> <p>Goblygiadau ariannol: Mae'r amcanestyniadau costau ar gyfer 2024-25 yn parhau i esblygu, gan eu bod yn dibynnu ar nifer o benderfyniadau sydd eto i'w gwneud, yn enwedig y dyddiad dechrau ar gyfer archwiliadau ffisegol, manylion y Tâl Defnyddiwr Cyffredin a'r contract gweithredu ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau Caergybi.</p>

6. Llywodraeth Cymru

65. Mae'r materion yn yr adroddiad hwn yn rhychwantu sawl portffolio Gweinidogol, fel a ganlyn⁶³:

- Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru (Cysylltiadau rhyngwladol, Cymru ac Ewrop);
- Huw Irranca-Davies AS, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (Goruchwyllo'r polisi ffiniau);
- Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Polisi Masnach Ryngwladol, gan gynnwys cydlynu materion sy'n ymwneud â masnach y DU/UE, cymorth allforio).

Tystiolaeth ar y camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd

66. Mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor, nododd yr Athro Potter ddau gam y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu i gefnogi masnach:

1. Darparu cymorth priodol i fusnesau barhau i ddefnyddio llwybrau masnach Cymru, gan gynnwys deall y Model, Fframwaith Windsor ac ati; a
2. Dylem wneud yn siŵr bod y Safleoedd Rheoli Ffiniau yn barod mewn pryd ar gyfer y dyddiau cau sydd ar ddod, er mwyn sicrhau pan fyddwn yn dechrau gwneud mwy o'r gwiriadau rheoli ffiniau bod gennym y cyfleusterau yng Nghymru i allu gyflawni'r gwiriadau.⁶⁴

67. Cytunodd yr Athro Hayward, gan ychwanegu y gallai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol hefyd:

"be aware from the perspective of devolution about the implications of changes to Westminster legislation and the way that that would affect, potentially, trade across these islands [...] it's very much a sort of evolving process, and it almost seems as if it's up to the devolved

⁶³ Llywodraeth Cymru, [Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion](#)

⁶⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

legislatures and executives themselves to be able to keep track of the ramifications for them, and to issue guidance accordingly.”⁶⁵

68. I gloi, cytunodd y ddau y bydd yr ansicrwydd ynghylch trefniadau masnach ar ôl Brexit yn parhau am beth amser i'r dyfodol.

Cytundeb milfeddygol rhwng y DU a'r UE

69. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, ym mis Mehefin 2024, os bydd gweinyddiaeth Lafur ar waith wedi Etholiad Cyffredinol mis Gorffennaf, “byddwn am ystyried gyda nhw a gweinyddiaethau eraill oblygiadau” unrhyw gytundeb milfeddygol rhwng y DU a'r UE (a fyddai'n lleihau'r angen am archwiliadau o anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid).^{66 67}

70. Cafodd cytundeb milfeddygol rhwng y DU a'r UE ei gynnwys ym maniffesto etholiad cyffredinol 2024 Plaid Lafur y DU “i atal archwiliadau diangen ar y ffin a helpu i fynd i'r afael â chost bwyd”⁶⁸.

71. Mae UK in a Changing Europe (UKICE) yn esbonio:

“Currently – i.e., without a veterinary agreement – all UK consignments are subject to documentary and identity checks. The frequency of physical checks depends on the risk associated with the product category. For example, the level of physical controls is set at 100% for live animals, at 30% for poultry meat and dairy products, and 1% for hay and straw. Some products – like minced meat, raw sausages, or seed potatoes – can no longer be sold into the EU.”⁶⁹

72. Canfu ymchwil gan UKICE, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024, y gallai cytundeb arwain at gynnydd o 22.5 y cant mewn allforion bwyd-amaeth a chynnydd o 5.6 y cant mewn mewnforion, gan hefyd ychwanegu 0.22 y cant at werth ychwanegol y sector amaethyddol.⁷⁰

⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 44

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, Yr Economi Werdd a Chraffu Cyffredinol - Papur Tystiolaeth Mehefin 2024, Tudalen 7

⁶⁷ UK in a changing Europe, Veterinary agreements, Hydref 2024

⁶⁸ Plaid Lafur y DU, Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2024, Mehefin 2024

⁶⁹ UK in a changing Europe, Veterinary agreements, Hydref 2024

⁷⁰ UK in a changing Europe, Would a veterinary agreement be a boost for UK-EU agri-food exports?, Mehefin 2024

Adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

73. Mae sicrhau cytundeb milfeddygol rhwng y DU a'r UE yn un o bedair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad gweithredu arfaethedig o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.⁷¹ Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad traws-bwyllgor o'r adolygiad, ochr yn ochr â thri phwyllgor arall.⁷²

⁷¹ Llythyr gan gyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 20 Mehefin 2024.

⁷² Senedd Cymru, Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE - Ymgynghoriad
